**GORCHYMYN SIR BENFRO**
**CYNGOR SIR PENFRO**
**HEOL DYFED, ABERGWAUN**
**(GWAHARDD CERBYDAU MODUR AC EITHRIO MYNEDIAD)**
**2024**

---

Rhoddir **HYSBYSIAD** drwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu gwneud gorchymyn wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1) a (2), 2(1) a (3) a 3(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ( “y Ddeddf”) fel y’i diwygiwyd, a phob pŵer galluogi arall i wahardd cerbydau modur ac eithrio mynediad rhag mynd ar hyd y rhan honno o Heol Dyfed, Abergwaun, o’i chyffordd â Windyhall (yr A487) i’r de hyd at ddiwedd y briffordd gyhoeddus.

Gellir gweld copi o’r gorchymyn drafft ynghyd â chynllun yn dangos lleoliad y cyfyngiad arfaethedig a datganiad o resymau dros gynnig cyflwyno'r gorchymyn ar-lein ar y dudalen we hon: https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-trraffig-ffyrdd

Gellir gwneud unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau mewn perthynas â'r cynigion uchod, ynghyd â'r seiliau dros eu gwneud, unai trwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein neu yn ysgrifenedig i'r islofnodedig erbyn y 11eg diwrnod o Medi 2024. Dyfynnwch y cyfeirnod – Heol Dyfed.

Dyddiedig y 21ain diwrnod hwn o Awst 2024

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith a’r Amgylchedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd

**GORCHYMYN CYNGOR SIR PENFRO**

**(GWAHARDD CERBYDAU MODUR AC EITHRIO MYNEDIAD)**

**(HEOL DYFED, ABERGWAUN)**

**2024**

**Datganiad o'r Rhesymau**

Mae’r cynnig i gyflwyno gorchymyn cyfyngu traffig i Wahardd Cerbydau Modur Ac Eithrio Mynediad yn cael ei gynnig ar Heol Dyfed, Abergwaun i leihau faint o draffig diangen sy’n gyrru ar hyd y ffordd ‘dim ffordd drwodd’ hon ac i gael gwared ar barcio yn y man troi sy’n cyfyngu ar symudiadau troi’r trigolion.

# Heol Dyfed, Fishguard Access Only order

Map produced on: 11 July 2024

Scale (A4 Print)

1:5,000




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

# Proposed 'Access only Order'

Map produced on: 19 June 2024

Scale (A4 Print)
1:1,000




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.